**<u>Russell George AS – Digwyddiad rhwydweithio gwleidyddol yn Riga, Latfia, 4 Tachwedd 2022</u>**

**Diben yr ymweliad**

Nod yr ymweliad oedd rhoi cyfle i rwydweithio â dirprwyaeth drawsbleidiol o seneddwyr o wledydd eraill a thrafod arferion seneddol, diwygio etholiadol, trefniadau craffu, a phroblemau wrth geisio cynorthwyo ffoaduriaid Wcráin. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyfle i gyfarfod ag arweinwyr gwleidyddol a ffydd, yn enwedig o'r gwledydd Nordig-Baltig gyda risgiau geo-wleidyddol y rhanbarth mewn golwg, i gryfhau ymrwymiadau cyffredin i heddwch yn Ewrop a thu hwnt. Cynhaliwyd y digwyddiad rhwydweithio drwy gyfres o gyflwyniadau, trafodaethau wedi'u trefnu, a chyfarfodydd anffurfiol.

**Cyfarfod â seneddwyr Gogledd Ewrop**

Hwylusodd y digwyddiad gynrychiolaeth o Gymru a'r Senedd mewn cynulliad rhyngwladol o seneddwyr o Ogledd Ewrop. Roedd y prif ddigwyddiad rhwydweithio'n cynnwys siaradwyr amrywiol, gan gynnwys y Dywysoges Maragaretha o Liechtenstein a amlinellodd ei rôl gyhoeddus a'i thaith i ffydd, ac aeth y Dywysoges ymlaen i drafod pwysigrwydd treftadaeth gwlad. Roedd sesiynau a chyfarfodydd grŵp yn rhan o'r digwyddiad.

Cynhaliwyd sawl cyfarfod gyda seneddwyr Gogledd Ewrop a chynrychiolwyr llywodraethau rhanbarthol a roddodd lwyfan i rannu syniadau polisi ac archwilio ffyrdd newydd o hyrwyddo ymgysylltiad rhwng y Senedd a chymunedau ac arweinwyr ffydd. Roedd presenoldeb a chyfranogiad yn y digwyddiad yn gyfle i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o Gymru a'r Senedd ymhlith y rhai a oedd yn bresennol.

**Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys:**

***Cyfarfod ag Aelodau o Senedd Latfia:*** Cyfle i gyfarfod ag aelodau senedd Latfia, sef Janis Grasberg, Ramona Petravica, Ainars Slesers a Richard Slesers. Trafodaeth ar syniadau polisi, rhannu syniadau polisi ac archwilio ffyrdd newydd o hyrwyddo ymgysylltu rhwng y Senedd ac arweinwyr a chymunedau ffydd. Amlinellodd y gwleidyddion yr heriau y mae Latfia yn eu hwynebu hefyd fel gwlad sy'n ffinio â Rwsia ac sy'n gymharol agos at Wcráin, yn enwedig mewn cyfnod o ryfel. Roedd yn ddefnyddiol clywed o lygad y ffynnon hefyd am arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol y rhanbarth yn y cyd-destun presennol a sut mae effaith y rhyfel yn Wcráin yn effeithio ar ddinasyddion yn y rhanbarth Nordig-Baltig.

***Cyfarfod ag Antero Laukkanen o Senedd y Ffindir (prif siaradwr):*** Trafodaeth ar waith Seneddol a gwaith pwyllgorau Seneddol. Rhannodd Mr Laukkanen ei brofiad fel gwleidydd yn Senedd y Ffindir gyda'i ddiddordeb arbennig mewn cyfiawnder cymdeithasol.

***Cyfarfod â ffoaduriaid o Wcráin:*** Roedd hyn yn rhan o gyflwyniad i seneddwyr am y sefyllfa bresennol yn Wcráin a'r cymorth sydd ei hangen i helpu ffoaduriaid yn y rhanbarth. Roedd trafodaeth a sgyrsiau pellach am y rôl Cymru o ran cynorthwyo'r rhai oedd yn ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin a'r cymorth mae Llywodraethau yn gallu ei gynnig i'r unigolion hynny sy'n ceisio lloches. Cafwyd trafodaeth bellach am gefnogaeth etholwyr Sir Drefaldwyn i ffoaduriaid Wcráin a chefais gyfle i drafod enghreifftiau penodol o faterion a godwyd gyda mi yr oeddwn wedi'u codi gyda gweinidogion Cymru.